

Adolygiad Cyflym Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

Adolygiad cyflym o ba fodolau gweithlu arloesol sydd wedi helpu i gynyddu galluedd ar gyfer gofal yn y gymuned yn gyflym i helpu oedolion hŷn i adael yr ysbyty?

Rhif adroddiad – RR00039 (Gorffennaf 2022)

Manylion yr Adolygiad Cyflym

Adolygiad wedi'i gynnal gan:

Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Adolygu (SURE), Prifysgol Caerdydd

Tîm Adolygu:

Helen Morgan, Mala Mann, Alison Weightman, Lydia Searchfield, Kate Lifford, Freya Davies

Adolygiad wedi'i gyflwyno i WCEC ar:

15^{fed} Mehefin 2022

Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:

21^{ain} Mehefin 2022

Adroddiad ar yr Adolygiad Cyflym wedi'i gyhoeddi gan WCEC yn:

Gorffennaf 2022

Tîm WCEC:

Alison Cooper, Ruth Lewis, Adrian Edwards, Micaela Gal, Jane Greenwell

Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel a ganlyn:

RR00039. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Adolygiad cyflym o ba fodolau gweithlu arloesol sydd wedi helpu i gynyddu galluedd ar gyfer gofal yn y gymuned yn gyflym i helpu oedolion hŷn i adael yr ysbyty. Gorffennaf 2022

Ymwadiad: Barn yr awduron yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y cyhoeddiad hwn, yn hytrach na barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro.

Pa fodolau gweithlu arloesol sydd wedi helpu i gynyddu galluedd ar gyfer gofal yn y gymuned yn gyflym i helpu oedolion hŷn i adael yr ysbyty?

Rhif adroddiad – RR00039 (Gorffennaf 2022)

CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

Beth ydy Adolygiad Cyflym?

Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrro neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth er mwyn hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon ond eto bob amser rhoi sylw i duedd. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal adolygiadau cyflym ac adrodd arnynt, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, tynnu data, arfarnu ansawdd a chyfuno tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau allweddol mewn ymchwil. Ymgwymerwyd â'r Adolygiad Cyflym hwn mewn **pedair wythnos** i ddarparu sail ar gyfer blaenoriaeth polisi brys. Rhoddwyd blaenoriaeth i adolygiadau systematig ac astudiaethau sylfaenol y DU.

Ar gyfer pwy mae'r crynodeb hwn?

Roedd yr adolygiad hwn ar gais brys Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru i helpu i ddarparu sail ar gyfer cynllunio'r darpar weithlu ac ar gyfer ymatebion gwasanaeth ar draws gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd i greu capasiti gofal cymunedol i gefnogi unigolion i fyw gartref, a chefnogi rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty.

Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym

Mae'n bosibl y bydd oedolion hŷn sydd wedi cael triniaeth fel cleifion mewnol ysbyty, ac sydd nawr yn **feddygol ffit** i gael eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned, angen **gofal ychwanegol i gefnogi'r cyfnod pontio hwnnw**. Mae'n bosibl bod yna hefyd risgiau ynghlwm wrth aros yn hir yn yr ysbyty, gan gynnwys dirywiad mewn gallu i weithredu, dibyniaeth a'r risg o heintiau a ddelir yn yr ysbyty. Nod yr adolygiad hwn oedd adolygu'r dystiolaeth ymchwil o effeithiolrwydd **modelau gweithlu yn y gymuned** a allai o bosibl gynyddu capasiti yn gyflym ar gyfer gofal yn y gymuned a helpu oedolion hŷn i adael yr ysbyty.

Darganfyddiadau Allweddol

Cynhwyswyd **19 o astudiaethau**: 11 o astudiaethau systematig ac 8 o astudiaethau sylfaenol y DU oedd heb eu cynnwys yn yr adolygiadau (4 â dyluniad astudiaeth feintiol, 1 astudiaeth achos, 1 astudiaeth dulliau cymysg a 2 astudiaeth ansoddol).

Graddau'r sylfaen dystiolaeth

- Roedd y 19 o astudiaethau'n gwerthuso **5 gwahanol faes ymyrraeth ac amrywiaeth o ddeilliannau**, gan gynnwys: hyd y cyfnod yn aros yn yr ysbyty; cyfraddau gwelyau dydd, diwrnodau cyn rhyddhau cynnar â chymorth, oedi wrth drosglwyddo gofal (DTCO); hyd y cyfnod gofalu; marwolaethau; aildderbyniadau; a dirnadaeth gofalwyr, cleifion neu staff.
- Dyma oedd y meysydd ymyrraeth a astudiwyd yn fwyaf helaeth: **Rhyddhau Cynnar â Chymorth a Gofal Pontio/ Parhad Gofal**. Cafodd naw astudiaeth ddiweddar y DU o'r adolygiadau systematig a oedd yn disgrifio'r ymyriadau hyn eu dadansoddi ar wahân i gael data ar ddeilliannau a chydrannau'r gweithlu.

Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth

- Cyhoeddwyd yr erthyglau rhwng **2016 a 2022**
- Cyhoeddwyd astudiaethau'r DU a dynnwyd o'r adolygiadau systematig rhwng 2000 a 2017.

Tystiolaeth o effeithiolrwydd

- Mae corff y dystiolaeth mewn adolygiadau systematig o **Ryddhau Cynnar â Chymorth** yn gyson ac mae'n dangos bod rhyddhau cynnar â chymorth yn **lleihau hyd y cyfnod yn aros yn yr ysbyty** er nad oedd astudiaethau diweddar y DU yn dangos patrwm cyson.
- Mae corff y dystiolaeth mewn adolygiadau systematig o **Ofal Pontio/ Parhad Gofal** yn eithaf cyson ac roedd yn tueddu i ddangos **lleihad yn nifer yr aildderbyniadau** er nad oedd astudiaethau diweddar y DU yn dangos patrwm cyson.
- Roedd pob un o'r **ymyriadau** a werthuswyd yn rhai **amlddisgyblaeth**.
- Mae **lleoliad daearyddol** yn ychwanegu at **heterogenedd** mewn dyluniadau a deilliannau ymyriadau.
- Mae **dirnadaeth staff**, yr adroddwyd arno gan Baxter et al. (2020), yn darparu sail ar gyfer sut i bontio'n ddiogel, yn cynnwys: **dod i adnabod y claf**; meithrin **perthnasoedd** o fewn **timau** ac ar eu traws, a **chau bylchau** o fewn y **system**.

Goblygiadau i Bolisi

- Mae'n anodd dod i gasgliadau cadarn oherwydd **y dystiolaeth gyfyngedig o leoliadau yn y DU**, ac **ansawdd isel yr astudiaethau a gynhwyswyd**.
- Nid oes yna ddigon o wybodaeth i gynnig y ffordd orau oll i ddylunio gwasanaeth ond mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod **ymyriadau mwy cynhwysfawr** (yn cwmpasu amrywiaeth o wahanol gydrannau) a **mwy dwys** yn fwy tebygol o fod yn effeithiol.
- **Mae angen ymchwil bellach** i werthuso effeithiolrwydd modelau'r gweithlu a gyflwynir i gynyddu capasiti ar gyfer gofal yn y gymuned i helpu oedolion hŷn i adael yr ysbyty yn achos lleoliadau yn y DU.
- Mae'r modelau Rhyddhau Cynnar â Chymorth a Gofal Pontio yn eithaf addawol.

Cryfder y Dystiolaeth

- Ni ystyriwyd bod unrhyw un o'r adolygiadau systematig o ansawdd uchel.
- O'r 8 o astudiaethau sylfaenol a nodwyd nad oedd wedi'u cynnwys yn yr adolygiadau systematig, ystyriwyd bod un astudiaethau feintiol sylfaenol ac un astudiaethau ansoddol sylfaenol o ansawdd uchel.
- Ni arfarnwyd ansawdd y 9 astudiaeth y DU a nodwyd o fewn yr adolygiadau systematig ynglŷn â Rhyddhau Cynnar â Chymorth a Gofal Pontio/ Parhad Gofal.